RHIFYN ISSUE 35

15.12.20

Llais Llantrisant

DIOLCH!
THANK YOU!

Diolch yn fawr iawn i holl gymuned yr ysgol am eich cydweithrediad a chefnogaeth y tymor hwn. Tymor anodd iawn ond, gyda'n gilydd, fe lwyddom!

A big thank you to the whole school community for your cooperation and continued support this term. A difficult term but, together, we did it!



SIOEAU'R NADOLIG
CHRISTMAS SHOW

Bydd pob cyngerdd / sioe / cyflwyniad / extravaganza (!) ar gael ar y dudalen hon erbyn diwedd yr wythnos. Mwynhewch! Mae'r staff a'r plant wedi gweithio'n galed iawn i roi perfformiadau ymlaen ar eich cyfer chi.

All concerts / shows / presentations / extravaganzas (!) will be available on this page on the school website by the end of the week. Enjoy! The staff and children have worked hard to pull together some alternative Christmas messages this year!



CASGLU DATA
DATA COLLECTION

Diolch am gwblhau'r ffurflen casglu data a'i dychwelyd i'r cyfeiriad ebost isod cyn dechrau Tymor y Gwanwyn os gwelwch yn dda.

We thank you for completing the data collection form and returning it to the email address below before the beginning of the Spring Term, please.

data.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

15.12.20 - Diwrnod olaf Tymor yr Hydref
Last Day of Autumn Term
16.12.20 - Darpariaeth HWB am 3 diwrnod tan 18.12.20
HUB Provision for 3 days until 18.12.20
04.01.21 - Dim ysgol i'r plant - diwrnod HMS i'r Staff
No school for the children - Staff INSET day
05.01.21 - Dim ysgol i'r plant - diwrnod HMS i'r Staff
No school for the children - Staff INSET day
06.01.21 - Plant yn Dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn
Children Return for Spring Term

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Merry Christmas and a Happy New Year

Bydd yr ysgol yn cau am y gwyliau ar Ragfyr 15fed.
Bydd addysgu a dysgu arlein yn digwydd rhwng Rhagfyr 16eg ac 18fed
Bydd y plant yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd ar Ionawr 6ed.

School closes for the holidays on December 15th.
Online teaching and learning will take place between December 16th and 18th.
The children return in the New Year on January 6th.

TYMOR YR HYDREF 2020
AUTUMN TERM 2020

Wel am dymor a hanner! Heb amheuaeth, rydym wedi bod yn ffodus iawn yn yr ysgol y tymor hwn i gadw'n ddiogel, yn iach ac i barhau gyda rhyw fath o normalrwydd er mwyn y plant. Nid yw'r ysgol wedi bod yr un peth i'r plant (a'r staff!) ond maent wedi gweithio yr un mor galed i'r athrawon! Fel chi, rydym i gyd yn edrych ymlaen at y diwrnod pan fydd popeth yn dychwelyd i normal.

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a'n rhieni am gyd-weithio i sicrhau fod ein trefniadau caeth yn gweithio!

Well, what a term! Without a shadow of a doubt we have been very fortunate in school this term to keep safe and healthy and to continue to carry on with some semblance of normality for the sake of the children. School hasn't been quite the same for the children (or staff!) but they have worked just as hard as they usually do for the teachers! Like yourselves I'm sure, we are all looking forward to the day when everything returns to normal.

Many thanks to all the staff and to our parents for working together to ensure our tight arrangements worked!



GWEITHFEYDD
MAINTENANCE WORK

O'r diwedd! Dechreuwyd ar y gwaith o greu heol newydd o safle'r ysgol i'r bae bysiau ac o ail-osod dau gaban newydd i ni ar iard CA2. Pan ofynnais pryd fyddai'r gwaith wedi'i orffen, yr ateb ges i oedd "Erbyn y Pasg". Gwnes i sicrhau mod i'n cadarnhau mai Pasg 2021 oedd y bwriad!

At last! Work has commenced on the creation of a new access road into the bus bay and repositioning of 2 new portakabins on the KS2 yard. When I asked when these works would be completed I was told "By Easter". I did however, ensure it was Easter 2021!



HETIAU'R URDD
URDD HATS

Ydych chi'n chwilio am anrhegion ar gyfer hosannau Nadolig eleni? Ydych chi wedi gweld hetiau newydd Urdd Gobaith Cymru? Gyda phawb yn gorfod ciwio i ddod i mewn i'r ysgol bob bore a'r tywydd yn dechrau oeri, am anrheg ddelfrydol! #DimComisiwn

Are you still searching for stocking fillers this year? Have you seen our recent re-tweet of the new Urdd Gobaith Cymru bobble hats? With everyone having to queue to come into school each morning and the weather turning colder, what a great gift! #NoCommission




www.urdd.cymru/het

Ewch i / *Remember to visit : www.yggglantrisant.cymru*

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS






Llongyfarchiadau mawr i ES ar ennill cystadleuaeth dylunio carden Nadolig i @MickAntoniw1 ac @AlexDaviesJones yn ddiweddar. Daeth ES yn ail - da iawn ti!!

Hefyd, llongyfarchiadau mawr i CH ac ED ar gael eu dewis i chwarae pêl-droed dros dîm merched RCT o dan 11.

Many congratulations to ES on her successful entry to create a Christmas card for @MickAntoniw1 and @AlexDaviesJones recently. ES came runner up - well done!!

Also, a big congratulations to CH and ED on their selection to play as part of the RCT girls football team under 11.





YMWELIAD ADAM COLEMAN
ADAM COLEMAN'S VISIT

Wythnos ddiwethaf, daeth Adam Coleman a'i ffrindiau i'r ysgol unwaith eto i gwrdd â phlant Blwyddyn 2. Fel arfer, bydd plant Blwyddyn 2 yn ymweld ag Eglwys Bethel adeg y Nadolig i gymryd rhan mewn gweithdy Stori'r Nadolig. Wrth gwrs, eleni, nid oedd hyn yn bosibl felly daeth y gweithdy aton ni! Diolch yn fawr iawn i Mr Coleman a'i ffrindiau am ddod â Stori'r Geni yn fyw i'r plant!

Last week, Adam Coleman visited school with some friends to meet up with Year 2 pupils. Usually, Year 2 children visit Bethel Church in Pontyclun during the run up to Christmas to take part in a Christmas Story workshop. Obviously, this year it wasn't possible so the workshop came to us! A big thank you to Mr Coleman and his friends for bringing the story of Jesus' birth to life for the children!

MASTERMIND PLANT CYMRU
MASTERMIND, WALES

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'n disgyblion a fu'n ffodus iawn yn ddiweddar i gael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen Mastermind Plant Cymru. Cadwch lygaid ar agor i weld MC a GM ar S4C dros y Nadolig!

Many congratulations to two of our pupils who were fortunate enough to take part in the Mastermind for Children, Wales programme recently. Keep your eye open over the Christmas break to see MC and GM on S4C!





CANLYNIADAU PROFION COVID19
COVID19 TEST RESULTS

Diolch yn fawr iawn i chi am ein hysbysu pan fydd plentyn / plant yn gorfod aros gartref a hunan-ynysu tra eu bod yn aros am ganlyniadau prawf. Gofynnir yn garedig i chi ebostio canlyniadau'r profion i admin.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni gofnodi'r canlyniadau hyn ar gofrestrau / systemau'r ysgol.

Many thanks for informing us when a child / children have to stay at home and self-isolate whilst awaiting COVID19 test results. We kindly ask that you email the test results confirmation to admin.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk, please, in order for us to record these results on the school's registers / systems.